


GWERSYLL YR URDD LLANGRANNOG



Gwersyll yr Urdd
Llangrannog

LLAWLYFR ARWEINYDDION

At eich gwasanaeth

CYNNWYS

1. Nod y Gwersyll
2. Rhagair
3. Gwybodaeth Gyffredinol i Rieni
4. Rheolau'r Gwersyll i'r plant
5. Ymarfer Tan
6. Salwch a Cymorth Cyntaf
7. Yswiriant
8. Gweithgareddau
9. Noswyllo
10. Bysiau
11. Gwasanaeth Arlwyo

ATODIAD 1

NOD GWERSYLL YR URDD LLANGRANNOG

Nod Gwersyll yr Urdd Llangrannog yw creu canolfan sy'n cynnig cyfleoedd i blant, ieuenctid ac oedolion breswyllo, addysgu a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymraeg/Gymreig, diogel a chroesawgar. Cynigir profiadau a gweithgareddau cyffrous ac amrywiol trwy ddarparu cyrsiau a gwasanaeth cyflawn a phroffesiynol - a thrwy hynny cyflawni amcanion a delfrydau mudiad Urdd Gobaith Cymru.

2. RHAGAIR

- 2.1. O ganlyniad i gyngor gan ein Hymgyngorydd Iechyd a Diogelwch lluniwyd y llyfryn hwn.
- 2.2. Pwrpas y llyfryn hwn yw cynorthwyo “Arweinyddion Cyrsiau” yn y Gwersyll - nid codi ofn.
- 2.3. Mae trefn bendant yn y Gwersyll, sy'n cael eu hysbysu i rieni, ynglŷn a nifer o sefyllfaoedd e.e. salwch, ymweliadau a'r ysbyty, gweithgareddau; felly mae'n bwysig y dilynir y drefn hon trwy'r amser.
- 2.4. Rydym yn aelodau o gynllun Achredu Darparwyr Croeso Cymru.
- 2.5. Mae Rheolwr ar ddyletswydd 24 awr y dydd. Bydd rhif ffon y Rheolwr sydd ar ddyletswydd wrth y ffon yn y Dderbynfa.
- 2.6. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'ch grŵp i'r Gwersyll, a gobeithiwn y bydd y llyfryn hwn yn sicrhau bod eich arhosiad yma yn esmwyth, hapus a diogel.
- 2.7. Mae canllawiau manwl gennym yn y Gwersyll i'n staff e.e. canllawiau gweithgareddau, canllawiau cam-drin plant, toddyddion a chyffuriau. Os hoffech chi neu unrhyw riant weld ein canllawiau cysylltwch a'r Gwersyll ac fe wnawn ni ddanfoni copi atoch.
- 2.8. **Os digwydd damwain/salwch unrhyw bryd (ddydd neu nos) dylid cysylltu â Rheolwr y Gwersyll sydd ar ddyletswydd (rhif yn y Dderbynfa). Mae'r rheolwr ar ddyletswydd yn derbyn cyfrifoldeb am ofal meddygol y plant a dylai pob athro/arweinydd sicrhau cymorth y rheolwr os oes unrhyw amheuaeth parthed iechyd neu ofal plentyn.**

3. GWYBODAETH GYFFREDINOL I RIENI

- 3.1. Mae'n bwysig bod pob plentyn yn derbyn copi o'r daflen **Gwybodaeth Gyffredinol i Rieni a Tystysgrif Iechyd** (amgaeedig) i fynd adref at ei rieni/gofalwr.
- 3.2. Y taflenni hyn sy'n gosod trefn y Gwersyll i rieni/gofalwyr a thrwy'r wybodaeth hyn maent yn gallu penderfynu os ydynt yn derbyn trefn a safonau'r Gwersyll ac yn hapus i'w plant aros yma.
- 3.3. Mae'n holl bwysig i rieni/gofalwyr lenwi'r Tystysgrif Iechyd a'i danfon i'r Gwersyll gyda'r plant. Y ffurflen hon sy'n rhoi'r hawl i ni weithredu mewn argyfwng os na ellir cysylltu â'r rhieni/gofalwyr o fewn amser rhesymol.
- 3.4. Ni ddylid talfyrru'r daflen hon, (sef Gwybodaeth Gyffredinol i Rieni) oherwydd bydd Rheolwyr y Gwersyll yn dilyn y drefn a osodir yn y daflen.
- 3.5. Mae ein Systemau a Pholisïau Rheoli Diogelwch y Gweithgareddau wedi'u harchwilio a'u gwirio'n annibynnol.
- 3.6. Fel arfer darperir 4 pryd o fwyd y dydd ond gall hyn amrywio yn ôl yr amserlen.

Yr amserau arferol yw:

Brecwast	8.30 a.m.
Cinio	12.30 p.m.
Te	tua 4.30 p.m.
Swper	6.30 p.m.

Darperir bwydlen i lysieuwyr pob pryd.

- 3.7. Os yw plentyn neu oedolyn yn dilyn diet arbennig (e.e. diabetig gluten free, alergedd i gnau neu gynnyrch llaeth), rydym yn ceisio cwrdd a gofynion pob gwersyllwr. Gofynnir i rieni gysylltu â'r Gwersyll wythnos cyn i'w plant ymweld â'r Gwersyll fel y gallwn sicrhau bod pob dim ar gael. (e.e. llaeth soya, bara gluten free etc.)
- 3.8. Os oes rhaid i blentyn fynd adref oherwydd salwch neu ddamwain bydd ad-daliad o ganran o'r tal Gwersyll (gan ddibynnu ar y nifer o ddiwrnodau a gollwyd o'r cwrs).

4. RHEOLAU'R GWERSYLL I'R PLANT

CYFFREDINOL

Cyn gynted â phosib ar ôl cyrraedd bydd aelod o staff rheoli'r Gwersyll yn croesawu'ch grŵp ac yn rhoi'r rheolau canlynol i'r Gwersyllwyr.

- 4.1. Esbonio ble mae'r bechgyn/merched yn cysgu.
- 4.2. Esbonio ble mae'r toiledau/ystafelloedd ymolchi.
- 4.3. Nid yw'r plant i fynd i doiledau/ystafelloedd ymolchi'r athrawon.
- 4.4. Disgwylir i'r plant gadw'r
 - i. Gwersyll yn lan a thaclus gan ddefnyddio'r biniau
 - ii. Ystafelloedd yn lan a thaclus
 - iii. Nhw eu hunain yn lan a thaclus

Mae'n bwysig eu bod yn ymolchi dwylo cyn bwyd ac ar ôl bod yn y tŷ bach.

- 4.5. Mae peiriant sychu dwylo/gwallt ym mhob tŷ bach cyffredinol.
- 4.6. Does neb i fynd i unrhyw ystafell, ond i'w hystafell nhw eu hunain.
- 4.7. Os oes rhywbeth yn torri - dylid dod i ddweud.
- 4.8.
 - i. Croeso i adael unrhyw beth yn ddiogel yn y Swyddfa. e.e. camera.
 - ii. Arian Poted yn y Banc – Bydd bob grŵp yn gyfrifol am drefnu eu banc.
- 4.9. Os oes unrhyw un yn sâl, mae'n bwysig eu bod yn dweud wrth Reolwyr y Gwersyll neu eu hathrawon/arweinydd. Os oes unrhyw broblem e.e. plant eraill yn pigo arnynt (bullying), hiraeth, problemau personol etc. mae'n bwysig eu bod yn dod i ddweud naill ai wrth Reolwyr y Gwersyll neu eu harweinydd/hathrawon, fel y gellir ateb y broblem yn syth, yn hytrach nag aros tan eu bod yn cyrraedd adref ac yna'r rhieni'n ffonio'r Gwersyll/Ysgol. Fe wneir cofnod o bob triniaeth feddygol ynghyd â'g unrhyw ddigwyddiad.

Rhaid i bob plentyn gysylltu â'i arweinydd/athro os oes ganddo/ganddi feddyginiaeth. Awgrymir fod y plant yn cadw eu pwmp asthma gyda nhw.

- 4.10. Nid yw'r merched i fynd i goridor/stafelloedd y bechgyn, ac nid yw'r bechgyn i fynd i goridor/stafelloedd y merched. Mae'r rheol yma i Swyddogion hefyd.

Y GWEITHGAREDDAU

- a)
 - i. Does neb i fynd ar unrhyw weithgaredd oni bai fod staff y Gwersyll neu athro/swog gyda nhw.
 - ii. Nid yw'r plant i adael y Gwersyll oni bai fod staff y Gwersyll neu athro/swog gyda nhw.

- b) Yn ystod eu hamser rhydd, mae'r plant yn gallu chwarae ar yr iard, cae, y cyrsiau antur a'r cae pob tywydd. Dylai arweinydd bob grŵp drefnu rota goruchwyliaeth i sicrhau bod oedolyn/swyddog yn goruchwyllo'r plant pan mae'n nhw allan ar y cae.
- c) Ar gyrraedd Gweithgaredd croesewir y gwersyllwyr gan aelod o staff bydd yn esbonio trefn y gweithgaredd penodol hwnnw. Mae'n bwysig i bawb wrando ar y rheolau hyn gan fod canllawiau Diogelwch hefyd yn cal eu esbonio iddynt.
- ch) Darperir offer diogelwch e.e. hetiau caled, gan y Gwersyll.

Dylai'r plant wisgo'n addas ar gyfer pob gweithgaredd h.y. esgidiau synhwyrol, trowsus a llewis hir

Ni ddylid gwisgo unrhyw emwaith pan ar y Gweithgareddau.

- d) Ar ôl bod yn nofio, dylid gosod dillad gwlyb yn y basgedi wrth ymyl drws cefn y siop (ni ddylid gosod goggles/capiau nofio yno); a phan fyddant yn sych byddant yng nghefn y Neuadd.

D.S. Os oes dillad nofio plant yn llosgi/stretchio etc. yn y peiriant sychu dylid dweud wrth y Dderbynfa fel bo'r plant yn cael llythyr i fynd adref.

- dd) Mae peiriant diodydd oer a thwym yn y Neuadd ymgynnull, ganolfan hamdden a'r ganolfan sgïo - ni ddylid mynd â'r diod twym i'r stafelloedd cysgu. Mae peiriant diod oer yn y Neuadd hefyd sy'n cal eu ail-lenwi yn gyson ac yn rhad ac am ddim.
- e) Cardiau Post ar gael yn y siop a stampiau yn y Neuadd Ymgynnull (ni ddylid annog y plant i ffonio adref ar ddechrau'u harhosiad yn y Gwersyll gan fod hwn, o brofiad, yn gallu amharu ar rediad esmwyth y cwrs).
- f) Mae Gwyliwr Nos ar ddyletswydd bob nos y bydd preswylwyr yn y ganolfan.

5. TREFNIADAU TAN + YMARFER TAN

5.1. Byddwn yn cynnal Ymarfer Tan i bob grŵp newydd cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gyrraedd y Gwersyll.

5.2. Seiren yw'r larwm dan. Pan fyddwn yn clywed y seiren dyma'r drefn:-

HAFOD: Mae tri drws tan yn Hafod; sef y Brif Fynedfa a'r drysau ar ben pob coridor. Cerddwch o'ch ystafelloedd. Mae ystafelloedd 1, 2, 3, 4 a 5 yn defnyddio'r prif fynedfa a ystafelloedd 6, 7 ac 8 yn defnyddio'r drws ar ben y coridor. Mae pawb yn ymgynnull yn y Maes Parcio.

ENLLI: Mae dau ddrws tan yn Enlli - un ar waelod y grisiau (wrth goridor Bryneithin) ac un arall pen draw'r coridor (trwy'r ysbyty). Cerddwch o'ch ystafelloedd gan ddefnyddio unrhyw un o'r ddau ddrws a cherddwch i'r Maes Parcio o flaen yr ysbyty. Mae pawb yn ymgynnull ar yr iard o flaen yr ysbyty.

CILBORTH: Mae pedwar drws tân yn Cilborth – sef y ddau brif fynedfa a dau ar ben draw'r coridorau yn edrych dros y Cae pob tywydd. Mae'r stafelloedd sy'n wynebu'r môr yn gadael eu hystafelloedd a throi i'r chwith gan adael yr adeilad trwy'r drws agosaf a'r stafelloedd sy'n wynebu Gwersyll yn gwneud yr un peth ond yn troi i'r dde wrth adael eu hystafelloedd.

Ni ddylai unrhyw un chwarae gyda'r offer tan h.y. extinguishers, break glass, heat + smoke detectors - mae nhw yma am un rheswm, ac un rheswm yn unig - sef achub bywyd - **eich bywyd chi.**

5.3. CYFFREDINOL

i. Diangfeydd Tân (Fire Escapes).

Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom sicrhau bod y "Fire Escapes" yn glir.

ii. "Fire Extinguishers" - Mae Cwmni Chubb yn archwilio'r rhain yn rheolaidd.(0800 321666)

Mae'r rhain wedi'u lleoli ym mhob coridor ac yn y prif neuaddau, yn y Dderbynfa ac wrth ymyl toiledau Enlli.

iii. **Y SYSTEM LARWM**

Archwilir hwn ar ddechrau pob cyfnod.

5.4. RHIFAU FFON:

Argyfwng	999
Prif Swyddfa	01267 233481
Aberystwyth	01970 612361
Hwlfordd	01437 702131

OS DIGWYDD I'R LARWM DAN GANU DYMA'R CAMAU Y DYLLID EU DILYN:

Sef:

1. CWRDD A'R PLANT YN Y MAN YMGYNNULL.

2. CYFRI'R PLANT.

3. FFONIO'R STAFF SYDD AR DDYLETSWYDD. BYDD ENW'R PERSON HWN AR Y FFON.

RHIFAU FFON:	STEFF JENKINS	654623 neu 07930856703
	LOWRI JONES	654495 neu 07971997761
	IESTYN EVANS	811195 neu 07983484211
	GWYDION AB IFAN	07958799299

CEIR CYFARWYDDIADAU PELLACH GAN Y PERSON AR DDYLETSWYDD.

4. NI DDYLID DIFFODD Y LARWM.

6. CYMORTH CYNTAF A SALWCH

- 6.1 Mae yna Rheolwr â chymhwyster Cymorth Cyntaf llawn ar ddyletswydd 24 awr.
- 6.2 Prif Ganolfan Cymorth Cyntaf y Gwersyll yw ysbyty'r Gwersyll sydd wedi ei leoli yn bloc cysgu Enlli.
- 6.3 Mae'n bwysig bod pob rhiant/gofalwr yn derbyn copi o'r daflen Gwybodaeth Gyffredinol i Rieni a Thystysgrif lechyd sy'n gosod trefn y Gwersyll ar gyfer plant sy'n sâl/dost neu'n cael damwain.
- 6.4 Os digwydd damwain/salwch yn y nos dylid cysylltu â Rheolwr y Gwersyll sydd ar ddyletswydd (rhif wrth y ffon).
- 6.5 Os mae angen ffonio'r meddyg neu ambiwlans dylid cysylltu â Rheolwr y Gwersyll sydd ar ddyletswydd.
- 6.6 Os oes rhaid mynd â phlentyn i'r Ysbyty (h.y. Glangwili/Bronglais), dylid gwneud y penderfyniad yn bwylllog mewn ymgynghoriad a'r athrawon sydd ar y cwrs a hefyd y Rheolwr sydd ar ddyletswydd y noson honno.
- 6.7 Mae plant sy'n sâl/dost neu'n cael damwain fechan yn ymweld â'r meddyg/deintydd/ysbyty lleol cyn gynted â phosib e.e. pwythau i gwt bach, pelydr X, antibiotics ac yn y blaen. Byddwn yn cysylltu â'r rhieni os oes rhaid i'r plentyn aros yn yr ysbyty neu dderbyn anaesthetic (gweler Ffurflen lechyd). Yn dilyn unrhyw driniaeth neu ymweliad byddwn yn cysylltu â'r rhieni unwaith y bydd y plentyn yn dychwelyd i'r Ganolfan. Bydd aelod profiadol o'r staff yn mynd â phlant ar ymweliad a'r meddyg, deintydd neu'r ysbyty. Os dymuna'r rhieni i'w plentyn ddychwelyd adref am resymau meddygol, rydym, fel arfer, yn ceisio'u cwrdd hanner ffordd.
- 6.8 Rhaid i bob plentyn gysylltu â'i arweinydd/athro os oes ganddynt feddyginiaeth.
- 6.9 Os oes plentyn yn sâl a bod eisiau golchi'i dillad/dillad gwely gall staff y Gwersyll wneud hyn a'u sychu. Hefyd, os oes plentyn yn gwlychu'r gwely gellir golchi a sychu'r dillad. Gall y sefyllfa hon fod yn sensitif i'r plentyn, felly gallwch drafod y mater a'r staff rheoli yn y Dderbynfa.
- 6.10 Dylid llanw llyfr yr ysbyty neu'r Dderbynfa ar gyfer pob digwyddiad, bach neu ddifrifol, a rhaid llanw'r Ffurflen ddamwain ar gyfer pob damwain.
- 6.11 Pe digwydd damwain yna dylid cysylltu a'r Rheolwr ar ddyletswydd
- 6.12 Trefn Salwch

O dro i dro tra'n aros yn y ganolfan mi fydd plant yn mynd yn sâl ac yn chwydu. Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau, blinder, hiraeth, haint ayyb. Mae'n bwysig fod pawb yn dilyn y drefn isod er mwyn lleihau'r posibiliad o ledaenu'r salwch.

- 1 Dylid defnyddio powdr i arllwys dros y chwd. Mae stoc o'r powdr hyn i'w gael yn y Dderbynfa/Ysbyty, Hafod (storfa yn y cyntedd), Cilborth (storfa gyferbyn a ystafell 112) a Enlli (storfa gyferbyn ar siop)

- 2 Dylid ei glirio gan ddefnyddio'r brws arbennig (melyn) sydd ar gael yn y Golchdai
- 3 Dylid gosod y powdr budr mewn bin ac yna cau'r bag. Yna dylid symud y bag – wedi'u gau a'i osod yn y biniau sydd tu fas y siop/adeilad.
- 4 Os oes angen golchi unrhyw ddiplad, diplad gwely, sach gysgu ayyb, dylid eu rhoi i aelod o staff y Gwersyll i'w golchi.
- 5 Bob tro bydd plentyn yn sâl mae'n bwysig cofnodi'r amser – rhag ofn bod angen triniaeth bellach gan ddoctor.
- 6 Os oes nifer o blant yn sâl rhaid cysylltu â'r rheolwr sydd ar ddyletswydd yn syth.
- 7 Os oes modd dylid symud y plentyn i'r ysbyty er mwyn lleihau y posibilrwydd o ledaenu'r haint.
- 8 Yn ychwanegol i'r Ysbyty mae offer cymorth cyntaf:

yn y gegin
 ar y Llethr
 yn y Swyddfa
 yn y Pwll Nofio
 yn y Ganolfan Ferlota
 yn y sied beics
 yn stordy'r Beiciau Modur
 wrth ymyl trac y Beiciau Modur
 ym mhob cerbyd
 yn y Ganolfan Dringo
 yn y Ganolfan Hamdden
 wrth ymyl trac y Ceirt Cyflym
 yn y Ganolfan Treftadaeth

6.13. RHIFAU ffôn

Argyfwng	999	Ysbyty Glangwili	01267 235151
Doctoriaid y Gwersyll	01545 560203	Ysbyty Bronglais	01970 623131
		Ysbyty Aberteifi	01239 612214

7. YSWIRIANT

- 7.1. Mae gan yr Urdd yswiriant trydydd parti am £10 miliwn rhag unrhyw esgeulustod ar ran trefniadau yr Urdd.
- 7.2. Nid yw yswiriant personol i wersyllwyr yn gynwysedig yn y tal gwersyll.
- 7.3. Dylai rhieni wneud trefniadau eu hunain os ydynt yn dymuno polisi rhag damwain, salwch, colli eiddo ac ati.

8. GWEITHGAREDDAU

- 8.1. Mae ein Systemau a Pholisïau Rheoli Diogelwch y Gweithgareddau wedi harchwilio a'u gwirio'n yn flynyddol gan staff yr adran a swyddog NEBOSH y gwersyll.
- 8.2. Rydym yn falch iawn o'n trefniadau a'n systemau diogelwch nid yn unig ar y Gweithgareddau ond yn y Gwersyll yn gyffredinol a dangosir hyn yn y cyfartaledd o ddamweiniau a ddigwydd yma.
- 8.3.
 - i) Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd i sicrhau safon uchel o ddiogelwch ar y gweithgareddau ac yn y Gwersyll yn gyffredinol.
 - ii) Mae canllawiau manwl gan ein staff gweithgareddau i'w dilyn ar y gweithgareddau sydd unwaith eto yn sicrhau safon uchel o ddiogelwch ar y gweithgareddau.
 - iii) Os digwydd damwain neu ddamwain agos ar weithgaredd a adolygir gan staff y Gwersyll, mae'n rhaid iddynt wneud adroddiad manwl o'r digwyddiad. Cedwir yr adroddiadau hyn yn y Swyddfa.
- 8.4. Mae'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch Lleol (sef Cyngor Ceredigion) yn ymweld â'r Gwersyll yn rheolaidd i'n cynghori ac i fonitro.
- 8.5. Os oes corff llywodraethol gan weithgaredd arbennig rydym yn aelod ohono e.e. Cyngor Sgïo Cymru, Cymdeithas Merlota Cymru.
- 8.6. Cyflogir staff a'r cymwysterau a'r profiad angenrheidiol ar ein gweithgareddau.
- 8.7. Does neb i fynd ar unrhyw weithgaredd oni bai fod staff y Gwersyll neu athro/arweinydd yn bresennol ac yn goruchwyllo.
- 8.8. Arolygir y plant yn drwyadl ar bob weithgaredd ac fe arolygir y cyfarpar yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn addas.
- 8.9. Mae'r trefniadau yn y gwersyll wedi eu haddasu dros 70 mlynedd o brofiad er mwyn sicrhau gofal i'r plant yn y gwersyll a diogelwch ar y gweithgareddau.
- 8.10. Rydym yn sicrhau bod y plant yn gwybod ble i droi mewn argyfwng - mae yna rywun ar gael trwy gydol yr amser, ddydd a nos.
- 8.11. Mae "walkie-talkies" gan staff y gweithgareddau sy'n cysylltu â'r Dderbynfa a'i gilydd.

9. NOSWYLIO

- 9.1. Mae Gwylwr Nos ar ddyletswydd bob nos y bydd plant yn y ganolfan.
- 9.2. Ei oriau yw 11.00p.m. y nos tan 8.00a.m. y bore.
- 9.3. Er bod Gwylwr Nos mae dal eisiau trefnu Dyletswydd Noswyllo.
- 9.4. Argymhellir eich bod yn gwneud rota Dyletswydd Noswyllo ar gyfer pob nos, a dim ond yr athrawon/swogs sydd ar ddyletswydd i fynd i'r coridorau.
ayyb. mae'n dderbyniol eu tynnu o'u hystafell a'u rhoi i sefyll yn y coridor am ychydig o funudau.
- 9.6. Cynghorir chi i beidio defnyddio unrhyw gosb arall os oes rhaid tynnu'r plant o'u hystafell.
- 9.7. Dylid gadael goleuadau'r coridorau a'r tai bach ymlaen trwy'r nos (rhag ofn bod rhywun yn sâl neu eisiau mynd i'r tŷ bach). Yn coridorau a thai bach Hafod rheolir y golau gan sensors.
- 9.8. Dylid sicrhau bod y gwersyllwyr yn gwybod ble mae eu staff yn cysgu rhag ofn bod argyfwng/problem yn codi yn ystod nos.

10. BYSIAU / TRAFNIDIAETH

- 10.1. Mae twmpathau cyflymder ar hyd y ffordd sy'n arwain at y Gwersyll a hynny er mwyn gorfodi'r traffig i arafu.
- 10.2. Mae'r bysys i'w dadlwytho o flaen yr Ysbyty neu'r Ganolfan Hamdden.
- 10.3. Os oes rhaid i fysics rifysio yn y Gwersyll dylai rhywun fod wrth gefn y bus oherwydd bod plant o gwmpas trwy'r amser.
- 10.4. Os oes bysys yn cael eu gadael yn y Gwersyll, dylid gofyn i'r Rheolwr a dyletswydd ym mhle y gellir gadael y bus. Rhaid gadael yr allweddi yn y Swyddfa.
- 10.5. Rhaid ystyried y math o ganolfan yw Llangrannog wrth yrru trwy'r Gwersyll h.y. plant ym mhob man.
- 10.6. Nid ydym yn darparu bwyd yn rhad ac am ddim i yrwyr bus. Cost pryd o fwyd yw £2.50.
- 10.7. Gyrrwr y bus sydd a chyfrifoldeb o lwytho'r bus.

11. GWASANAETH ARLWYO

- 11.1 **Ein nod yw darparu Ganolfan Bwyd Diogel ac iach i bob un o'n cwsmeriaid.**
- 11.2 Paratoi'r ein holl fwyd gan Gogyddion y Gwersyll gan ddefnyddio cynhwysion tymhorol mwyaf ffres â'r pwyslais o baratoi a darparu bwyd iachus i'n cwsmeriaid
- 11.3 Defnyddir Cynnyrch Lleol a Chymreig lle bynnag y bo hynny'n bosibl, a defnyddir Cyflenwyr dibynadwy sydd yn cyflenwi cynnyrch o'r ansawdd uchaf.
- 11.4 Darperir bwyd diogel a iachus yn unol a'u hanghenion dietegol, cefndir diwylliannau neu gredoau crefyddol
- 11.5 Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd, Hylendid bwyd, Hylendid personol, Bwydydd iach a Diet arbennig, Alergedd ac Anoddefiad Bwyd, HACCP, Cymorth Cyntaf, addysg am annaffylacsis a defnydd Pigiad Awtomatig Adrenalin.
- 11.6 Mae yr holl staff yn ymrwymedig i leihau'r risg i'w cwsmeriaid mewn perthynas â darparu bwyd a'r defnydd o alergeddau yn y bwyd a allai arwain at adwaith alergaidd difrifol
- 11.7 Arddangosir rhestr o enwau ymgynghorwyr alergedd ar hysbysfwrdd wrth fynediad y neuadd fwyd, gall y cwsmeriaid ofyn i'r cynghorwyr ar unrhyw adeg am wybodaeth am gynhwysion unrhyw bwyd
- 11.8 Gellir arlwyo ar gyfer hanghenion bob un o'n cwsmeriaid e.e. Bwydydd heb Glwten / Gwenith, Bwydydd heb gynnyrch llaeth, bwydydd llysieuol, feganiaid, Kosher, a.y.b. Gallwn hefyd cynnig darpariaeth wahanol ar gyfer plant sydd yn fwytäwr ffyslyd
- 11.9 Os mae angen byrbrydau ar gyfer cwsmeriaid sydd yn ddiabetig, gall ofyn i'r staff arlwyo ddarparu, bydd y byrbrydau yn cael eu storio yn gegin athrawon yn y neuadd ymgynnull.
- 11.10 Gofynnir i rieni gysylltu â'r Gwersyll wythnos cyn i'w plant ymweld â'r Gwersyll fel y gallwn sicrhau fod pob dim ar gael e.e. llaeth soia, llaeth gafr, bwydydd heb glwten/ gwenith.
- 11.11 Gallwn ddarparu cacen ddathlu os mae yna achlysur arbennig, e.e. pen-blwydd, gall gysylltu ymlaen llaw, neu rhoi gwybod i'r staff arlwyo ar eich diwrnod cyntaf.

Gwobr Aur Opsiynau Iach Cymru Gyfan / Gwobr Aur Opsiynau Iach Curiad Calon Ceredigion

Darperir opsiynau iachach i'r holl gwsmeriaid, drwy ddefnyddio arferion arlwyo iachach, cynnig mwy o ffrwythau, llysiau a charbohydradau â starts, a lleihau braster, yn enwedig braster dirlawn, siwgr a halen.

Sgôr Hylendid Bwyd y Gwersyll – 5

Mae'r sgôr hylendid yn dangos i ba raddau y mae'r gwasanaeth arlwyo yn bodloni gofynion y gyfraith hylendid bwyd.